

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Emlyn Davies (Tanyfron) yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen, hefyd Dilys Owens (Cefn Meiriadog) a Thomas Evans (Llanfair) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd; a Thomas Hughes (Saron) a William Jones (Llanefydd) sydd yn yr Inffirmari. Bu'n rhaid i Celfyn Williams (Groes) ddychwelyd i'r ysbyty am rai dyddiau ond mae'n dda cael adrodd iddo ddod adre erbyn hyn, fel ag yn hanes Elsa Evans ac Enid Pierce (Llanefydd) - y ddwy wedi treulio rhai wythnosau yn yr ysbyty. Cyflwynwn bob un ohonynt i ofal yr Arglwydd, gan weddio y cânt adnabod nerth a chynhaliadaeth Duw ei hun yn ystod y dyddiau yma. Cofiw'n hefyd am eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Bydded i Dduw eto gael ei brofi'n ddigon yn amgylchiadau amrywiol ein pobl.
- Llongyfarchiadau i Gwawr Owen (Llanefydd) a Mike ar eu dyweddiad; i Rhun Murphy (DAWN Cymru) a Gwawr ar eu dyweddiad; ac i Aron Treharne (DAWN Cymru) ac Elain ar eu priodas.
- Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Kitty Parry sydd wedi symud i fyw o Gartref Park Lodge i Cysgodfa, Dinbych, gan ddiolch am bob gofal a gafodd tra'n y cartref yn Nhrefnant.

Dosbarth derbyn – diddordeb?

Mae'n fwriad gennym gynnal dosbarth derbyn ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod yn gyflawn aelodau o unrhyw un o gapeli'r Fro. Os ydych yn barod i ymateb yna cysylltwch hefo Aneurin (07775 701102) neu Mair (870632) cyn diwedd y mis ac fe drefnir yr amser fydd fwyaf cyfleus. Bydd angen mynychu cyfres o ddeg dosbarth. Diolch!

I ddod

- Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan **nos Fercher, Ionawr 19eg** am 7.00.
- Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn cyfarfod yn Llandyrnog **nos Iau, Ionawr 20fed**.
- Cwrs Ieuenctid yng Ngholeg y Bala o **Ionawr 28ain-30ain**. Mwy o fanylion gan Sarah (870601) neu trwy ffonio'r Coleg (01678 520565).
- Cyfarfod Chwiorydd Eglwys Bro Aled yng Nghapel Groes ar nos **Fawrth, Chwefror 1af** am 7.30 gyda Sarah Morris yn annerch.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Ionawr 2011

Dymuniadau gorau i
Meirion fel Swyddog
Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth EBC
a phob bendith yn y gwaith.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso arbennig i oedfaon y Sul arbennig yma. Dydd arall o ras ein Duw! Dydd yn sicr pan fydd yr atgofion a'r dymuniadau da yn llifo! Cawn gyfle heddiw gobeithio i ystyried o ddifri gerbron Duw sut y bu i ni ymateb i weinidogaeth ei Air a'i Efengyl yn ein plith dros yr ugain mlynedd olaf.

A fu inni ymateb mewn ffordd briodol a digonol? A ydym yn nes at Dduw heddiw? A ydym yn sicrach ein cerddediad ac yn derbyn yn llawnach o'i Ysbryd ac o lawenydd ei iachawdwriaeth? A ydym wedi ufuddhau i Dduw trwy gredu y Gair am ei Fab a rhoi ein hunain iddo heb ddiybennu dim ar ein gweithredoedd ni ein hunain? A ydym wedi tyfu yn ein ffydd trwy weddi ac astudiaeth o'r Beibl a manteisio fel ag y dylsem ar bob moddion gras a gawsom trwy drugaredd Duw dros yr holl flynyddoedd? A fedrwn ni roi gwell cyfri o'r gobaith sydd ynom a rhannu yn fwy hyderus ag eraill pwy yw Iesu a sut beth yw profi llawnder ei ras a'i heddwch? A ydym wedi profi grym cynhaliadaeth ei gariad a'r wefr o'i wasanaethu yn y byd?

Dyma'r ffrwyth a fyn Duw yn ein bywydau. Diolch iddo! - mae ateb cadarnhaol i'r cwestiynau hyn yn ein plith ac oherwydd hynny y mae gennym le go iawn i ddiolch am ei ffyddlondeb ac i ganmol ei ras tuag atom! Dod i'w addoli yn llawen a wnawn heddiw ac i ddyrchafu ei Enw am iddo ein caru ni mor fawr a rhoi i ni, o'i ras, weinidogaeth mor ffyddlon a ffrwythlon.

Diolchwn am y gynhaliadaeth ryfeddol a fu ar Meirion a Sarah ac am y fraint o gael dod i'w hadnabod ac am gwmni'r plant - Catrin, Steffan, Sion a Hanna. Fel tystion da, fe gawsom gan Meirion a'r teulu dystiolaeth gyson a chli'r arglwyddiaeth Iesu, i fawredd ei waith drosom ac i flaenoriaeth yr Efengyl dros bob agwedd o fywyd. Fe gawsom lot o sbort hefyd – llond lle o dynnu coes a chwerthin, yn enwedig yn yr oedfaon teuluol. Defnyddiodd bob cyfrwng i rannu neges fawr yr Efengyl a hynny yn ddiarbed. Y mae bellach yn arwain Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gweddiwn na fydd dim pylu ar y weledigaeth sicr a gafodd gan Dduw ac na fydd dim pall ar ei sêl dros anrhydedd ei Arglwydd a thwf ei Eglwys.

Cawsom eirfa newydd hefyd! Dysgodd ni i gael hyder wrth fentro ar y newydd ac os na fyddai'n tycio, wel, *'Knock it on the 'ead'* amdani! Llwyddwyd i gyflwyno newidiadau mawr a strategol yn y fro a gwelwyd llawer iawn mwy o gydweithio ac o gydrannu adnoddau ac adeiladau. Daeth yn weinidog i'r Annibynwyr hefyd a chafwyd bendith fawr o weithio fel eglwys unedig. Clywsom yr anogaeth cyson - " 'Mlaen 'ma Canaan!" A hynny'n cael ei ail-adrodd ar y teithie cerdded!

Diau, ac yn bennaf mae'n debyg i'r rhan fwyaf ohonom, byddwn yn diolch i Dduw am ofal Meirion drosom fel bugail. Ym mhob argyfwng, profedigaeth a dathliad bu yno wrth ein hochr yn dyst i drugaredd Duw ac yn ffrind cywir. Pob bendith arnynt fel teulu yn eu bywyd newydd a diolchwn o waelod calon i Dduw amdanynt.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma **OEDFA ARBENNIG am 6.00 yn Llansannan pryd y cawn gyfle i ddweud diolch wrth Meirion a Sarah a'r plant am eu holl lafur yn ein plith.** Bydd yr oedfa yn cael ei harwain gan Ben, bydd cynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn dod atom, mi fydd Aneurin yn dweud gair ar ran yr Eglwys a bydd y Parch Hywel Meredydd, Llangefni yn agor y Gair. Mi fydd hefyd yn gyfle i ymrwymo i weddio dros Meirion a'i deulu wrth iddynt gychwyn ar gyfnod o weinidogaeth newydd. **Bydd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi i bawb yn dilyn yr oedfa.**

Llun **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
Adnabod Addoli yn y Granar am 8.00.

Mercher Cyfarfod ar gyfer aelodau'r **Tîm Addoli** yn y Granar am 7.30.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.

Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.

Gwener **C.I.C.** yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Mercher Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn Soar, Llanfair am 7.00.

Noson y Gymdeithas Lenyddol yng nghwmni Miss Alaw Owen, Llanddaged yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Chyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards, Coleg y Bala yn arwain oedfa deuluol am 10.00 ac felly, ni fydd Ysgol Sul i'r plant. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn ystod yr oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais y ddwy eglwys ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog.

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.15. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain hefyd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore. Yn ystod y ddwy Gyfarfod Gweddi, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn â'n dymuniad i alw gweinidog.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.